

Y Broses Monitro Presenoldeb: Gwybodaeth i Fyfyrrwyr, 2023–2024

Mae eich presenoldeb mewn dosbarthiadau yn orfodol, ond mae'r Brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr fethu rhai dosbarthiadau o fewn rheswm. Dyma'r hyn y mae'n rhaid i fyfyrwyr yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ei wneud er mwyn osgoi presenoldeb anfodhaol:

- **Gwneud pob ymdrech i fod yn bresennol yn yr holl ddosbarthiadau ar eich amserlen.**
- Mewn modiwlau **Ile nad yw cymryd rhan mewn seminarau yn cael ei asesu**: Os byddwch yn methu ambell ddosbarth am unrhyw reswm, nid oes angen i chi roi gwybod am hyn nac egluro'r rhesymau am eich absenoldeb.
- Mewn modiwlau **Ile mae cymryd rhan mewn seminarau yn cael ei asesu**: Dilynwch y canllawiau a gawsoch gan gydlynnydd eich modiwl. Bydd angen i chi roi gwybod i'ch tiwtor seminar os byddwch yn methu dosbarth sy'n cael ei asesu ac egluro'r rhesymau am eich absenoldeb. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y caniateir ichi wneud gwaith ysgrifenedig yn lle cymryd rhan mewn seminar.
- Os byddwch yn methu **mwyn nag wythnos lawn o ddosbarthiadau ymhob modiwl**, neu werth pythefnos o ddosbarthiadau mewn un modiwl, rhaid i chi e-bostio eich Tiwtor Personol a nodi'r rhesymau am eich absenoldeb. Bydd eich Tiwtor Personol yn gwneud nodyn byr (na fydd yn cynnwys unrhyw wybodaeth sensitif) ynghylch y neges hon, a bydd yn ymddangos fel nodyn yn eich Cofnod Myfyriwr.

Gan ddibynnu ar natur y rhesymau am eich absenoldeb, mae'n bosibl y bydd eich Tiwtor Personol yn eich cynghori i lenwi Ffurflen Amgylchiadau Arbennig a chasglu tystiolaeth i gefnogi eich achos. Mae'r ffurflen, a manylion am sut i'w chyflwyno, ar gael ar y ddolen ganlynol: [Amgylchiadau Arbennig](#)

- Os ydych eisoed wedi cyflwyno Ffurflen Amgylchiadau Arbennig sy'n ymdrin â'r rhesymau am eich absenoldeb yn ystod y semester (i gofnodi salwch hirdymor, er enghraifft), **nid oes angen i chi egluro eich absenoldebau eto yn ystod y semester hwnnw.**

Monitro Rheolaidd ar Bresenoldeb:

Mae'r Adran yn monitro presenoldeb yn unol â'r amodau a bennwyd gan y Gofrestrfa Academaidd.

- Os canfyddir yn ystod y broses fonitro bod eich presenoldeb yn anfoddhaol, bydd Swyddog adrannol y Gofrestrfa Academaidd yn cysylltu â chi a gofynnir i chi egluro'r rhesymau am eich absenoldeb wrth eich Tiwtor Personol.
- **Cysylltwch â'ch Tiwtor Personol ar unwaith**, boed chi'n credu bod eich rhesymau'n ddilys ai peidio. Fe allech fod yn gymwys i gael cymorth nad ydych yn gwybod amdano, neu o leiaf gallech osgoi problemau am beidio ymateb.
- Os methwch ag egluro eich hun wrth eich Tiwtor Personol, bydd eich enw'n cael ei anfon ymlaen at y Dirprwy Gyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig, a bydd yn cysylltu â chi.
- Os methwch ag egluro eich absenoldebau wrth yr adran (naill ai wrth eich Tiwtor Personol neu wrth y Dirprwy Gyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig), rhoddir gwybod amdanoch i Ddeon Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. **Gallai'r gosb derfynol am bresenoldeb anfoddhaol neu fethu ag ymwneud â'r broses monitro presenoldeb olygu eich bod yn cael eich diarddel o'r Brifysgol.**